Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) ar Gyfer Dyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) – bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

## 1. Beth rydym yn ei wneud

Mae'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) yn parhau i fod wedi'i ymrwymo i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Amlygir hyn fel dangosydd perfformiad amgylcheddol allweddol yn ein **polisi amgylcheddol corfforaethol**. Er mwyn sicrhau ein bod ni yn cyflawni ein cyfrifoldebau, sefydlwyd amrywiaeth o weithredoedd a gynlluniwyd i ategi a chyflawni ein hamcanion cyffredinol.

Yr ydym wedi cyhoeddi cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth (BAP) ar gyfer yr ystâd ers 2013. Mae rhain wedi darparu fframwaith inni a gynlluniwyd i gyflawni gwelliannau gweladwy i'r bioamrywiaeth sy'n bodoli o fewn ffiniau ystâd DVLA sydd ar draws tri safle yn Ninas a Sir Abertawe. Mae iteriad diweddaraf **BAP DVLA** yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017 a 2020 ac yn gosod yr amcanion canlynol:

- cynnal a gwella bioamrywiaeth
- ymrwymiad staff
- ymrwymiad cymunedol
- cael gwared ar rywogaethau goresgynnol ac estron a'r defnydd o chwynladdwyr a phlaladdwyr

Cyhoeddwyd ein BAP ar yr un pryd â chreu a recriwtio rôl bioamrywiaeth arbenigol o fewn y tîm Cynaliadwyedd, rhan o'r Grŵp Rheoli Ystadau (EMG).

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r swyddog bioamrywiaeth wedi creu amserlen ar gyfer sefydlu meincnod trwy gynnal asesiad ecolegol rhagarweiniol (PEA) a nifer o arolygon ar rywogaethau a warchodir. Mae'r arolygon hyn ar gyfer cyfeirio mewnol ac yn cyfrannu at strategaeth gyffredinol i wella bioamrywiaeth ar yr ystâd.

Mae DVLA wedi contractio cynnal a chadw tiroedd trwy gytundeb rheoli ystadau a chyfleusterau menter cyllid preifat (PFI) sy'n gosod cyfyngiadau ar y ffordd yr ydym yn rheoli ein hardaloedd gwyrdd. Fodd bynnag, mae ardaloedd wedi'u caniatáu i fod yn wyllt unwaith eto gan sefydlu cynefin mwy amrywiol. Mae hyn wedi cynnwys:

- darparu pentyrrau boncyffion i famaliaid a thrychfilod bach eu defnyddio fel lloches
- cynyddu glaswelltir rhannolnaturiol, gorchudd cynefinol tal a chymunedau prysgwydd isel sydd i raddau helaeth oherwydd olyniaeth naturiol
- caniatawyd i goed gwasgaredig sefydlu ac aeddfedu.

Mae annog trychfilod a pheillwyr yn bwysig er mwyn sicrhau gwytnwch y fioamrywiaeth ar ein ystâd. Mae gennym dŷ gwenyn wedi'i sefydlu ar un o'n safleoedd. Nid yw'r mel yn cael ei gynaeafu sy'n caniatáu i'r gwenynbarhau i fod yn hunangynhaliol felly nid oes angen llawer o reolaeth arnynt.

Er mwyn annog mwy o amrywiaeth o drychfilod ar draws rhannau eraill o'r ystâd, mae DVLA wedi trefnu gyda'i phartneriaid PFI i lacio'r arferion torri glaswellt mewn rhai ardaloedd am gyfnodau cyfyngedig. Mae hyn yn caniatáu i'r glaswellt ddatblygu am gyfnodau hirach trwy gydol y tymor tyfu ac felly'n annog cynnydd yn amrywiaeth y glaswellt a'r blodau, gan gynnal banc hadau amrywiol.

Mae DVLA hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid i leihau llygredd golau trwy dreialu ailosod goleuadau LED sbectrwm coch dwfn a fydd yn achosi llai o aflonyddu ar rywogaethau o ystlumod sy'n bwydo ar draws y safle. Bydd unrhyw effaith bosibl ar fusnes craidd DVLA yn cael ei monitro.

## 2. Beth rydym yn ei gynllunio

Byddwn hefyd yn creu cynllun rheolaeth cynefin, i'w gyhoeddi yn Ebrill, yn rhoi darlun clir inni o werth ecolegol a bioamrywiaeth ein hystâd. Bydd y cynllun hefyd yn darparu cyfeiriad i reoli a chynnal a chadw ein mannau gwyrdd a gwella eu gwerth naturiol. Byddwn hefyd yn gweithredu amserlenni monitor a gwyliadwriaeth yn nodi gweithgareddau rheoli sy'n ofynnol i gyflawni amcanion a sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol o statws yr holl nodweddion pwysig. Wrth wneud hynny, bydd y cynllun hefyd yn nodi ac yn cyfiawnhau'r holl ofynion o ran adnoddau, gan gynnwys rhai dynnol ac ariannol.

Yn ystod gwanwyn 2020, cyhoeddir pedwerydd BAP i gyflawni pedwar amcan allweddol:

- paratoi rhestr o wybodaeth fiolegol ar gyfer rhywogaethau neu gynefinoedd dethol sy'n bresennol o fewn ffin DVLA
- asesu statws cadwraeth rhywogaethau sy'n bodoli ar yr ystâd
- sefydlu targedau ar gyfer cadwraeth ac arferiad
- sefydlu llinell amser ar gyfer gweithredu'r BAP

Bydd BAP newydd DVLA yn gosod nodau cyffredinol, gydag amcanion y gellir eu mesur. Bydd yn cael ei gyfathrebu i'n 5,500 aelod o staff yn ogystal a'i gyhoeddi'n allanol ar gyfer cynulleidfa ehangach. Bydd y BAP yn ddogfen fyw sy'n cael ei monitro a'i hasesu fel rhan o broses barhaus. Y nod yw darparu diweddariadau blynyddol fel rhan o adroddiadau blynyddol DVLA sy'n cynnwys yr **adroddiad blynyddol a chyfrifon** a'r **adroddiad cynaliadwyedd** i ddangos cynnydd yn erbyn targedau.

Er enghraifft, gall rhai o'n hamcanion gynnwys:

- gwella cynefinoedd i gynnal poblogaeth maint canolig o fadfall gyffredin sy'n bresennol ar yr ystâd
- cael gwared a llystyfiant er mwyn agor pwll gwanhau ac annog a chynnal amffibiaid sy'n bresennol ar y safle
- cynyddu'r arfer o gyfyngu ar yr arferion torri glaswellt i gynefino ein glaswelltir amwynder.

Rydym wedi ymrwymo i wella bioamrywiaeth ar ein hystâd. Yr ydym hefyd yn agored i syniadau a chynigion newydd iddatblygu dulliau a all gynyddu ei hamrywiaeth ecolegol ac i wella gwytnwch yr ecosystemau sy'n bresennol er mwyn gallu addasu i newid yn yr hinsawdd.

Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol: **Louise White**

Arweinydd Bioamrywiaeth: **Andrew Lees**

Dyddiedig: **Ionawr 2020**